Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Defnyddio data i gynllunio'n strategol ar gyfer plant a phobl ifanc

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

CHWEFROR 2009

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Diben 1
Cefndir 1

Prif ganfyddiadau **2**

Argaeledd data 2
Defnyddio data i lywio cynllunio 2
Effaith 3

Argymhellion **4**

Argaeledd data **5**

Defnyddio data i lywio cynllunio **8**

Effaith **10**

Cyflwyniad

Diben

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi papur safle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y graddau y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn defnyddio data i gynllunio'n strategol ar gyfer plant a phobl ifanc.

2 Mae'r adroddiad yn arfarnu ystod ac effaith y data a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a'u partneriaid i fodloni anghenion plant a phobl ifanc. Mae'n dadansoddi'r defnydd ar ddata i lywio cynllunio, ac mae'n bwrw golwg yn benodol ar sut mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn rhannu gwybodaeth i gynllunio'n well drwy gyfrwng y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

3 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn dangos enghreifftiau o arfer dda, yn benodol lle mae Partneriaethau Plant a Phobl ifanc lleol unigol wedi defnyddio data'n dda i gynllunio gwasanaethau targedig ar gyfer plant a phobl ifanc ac i wella canlyniadau ar eu cyfer.

4 Mae argymhellion o'r gwaith hwn ar gyfer y cylch gwaith yn cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth gyflawni ei hamcanion yn Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, a Deddf Plant 2004. Yn benodol, bydd y canfyddiadau a'r arfer dda sy'n cael eu tynnu o arfarniadau arolygwyr yn helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ymhellach.

5 Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys:

- adroddiadau arolygu wyth o wasanaethau addysg awdurdodau lleol a phum gwasanaeth cymorth ieuenctid rhwng mis Medi 2007 a mis Gorffennaf 2008;
- ymweliadau â sampl o bum ardal awdurdod lleol; a
- dadansoddiad o bob Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft.

Cefndir

6 Mae canfyddiadau Estyn o arolygiadau gwasanaethau addysg awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth ieuenctid yn dangos bod gormod o anghysondeb wrth ddefnyddio data i gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel strategol yn effeithiol.

7 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn ym mis Chwefror 2008 ar y defnydd ar ddata perfformiad gan awdurdodau lleol i gefnogi gwella ysgolion.

8 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ategu adroddiad arall a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan yn 2008-2009. Mae hwn yn arfarnu'r defnydd ar wybodaeth rheoli yng ngwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, ac effaith y wybodaeth rheoli hon.

Prif ganfyddiadau

9 At ei gilydd, mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn defnyddio ystod eang o ddata i asesu tueddiadau ac anghenion plant a phobl ifanc ar draws eu hardaloedd lleol. Drwy bartneriaethau strategol fel y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, mae darparwyr yn cynyddu eu defnydd ar ddata i lywio cynllunio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond ychydig iawn o bartneriaethau sy'n gallu cynhyrchu ffigurau i adlewyrchu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn effeithiol.

10 Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ar hyn o bryd yn gweithio ar wella defnyddio ystod ehangach o ddata i lywio'u cynllunio. Serch hynny, mae'n rhy gynnar i'r adroddiad hwn farnu effeithiolrwydd ac effaith y gwaith hwn.

Argaeledd data

11 Mae bylchau yn y data sydd ei angen ar awdurdodau lleol a'u partneriaid, ac sydd yn cael ei ddefnyddio ganddynt. Dyma her i'r rhan fwyaf o bartneriaethau. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw'r data sydd ei angen ar gael ar lefel leol nac ar gyfer y grŵp oedran penodol sy'n cael ei dargedu.

12 Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn araf yn dod o hyd i atebion i goladu data ar ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, heblaw am ddata ar arholiadau ysgol ac asesiadau gan athrawon.

13 Mae setiau data cenedlaethol cyfyngedig i helpu partneriaethau a darparwyr ddadansoddi tueddiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er enghraifft, prin yw'r data sydd ar gael ar gyfer pob oedran a phob grŵp targed, yn enwedig data sy'n canolbwyntio ar grwpiau mwy agored i niwed fel y rhai sydd dan anfantais yn sgil tlodi, gallu neu ethnigrwydd. Yn benodol, nid oes data ar gyfer dysgu ffurfiol ac anffurfiol, fel sy'n digwydd mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn ogystal, nid oes unrhyw gymaryddion cenedlaethol ar waith i alluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid feincnodi canlyniadau yn erbyn ei gilydd.

Defnyddio data i lywio cynllunio

14 Mae llawer o bartneriaethau yn defnyddio asiantaethau allanol i goladu a dadansoddi data ar eu rhan. Gall hyn arwain at broses ddadansoddi sydd ar wahân i'r broses ar gyfer cynllunio a dyrannu adnoddau.

15 Yn aml, mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gwybod beth yw'r meysydd blaenoriaeth lle mae angen gwasanaethau, ond nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i osod cyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc ochr yn ochr â hyn.

16 Mae prosiectau sydd wedi'u targedu'n benodol, sy'n cael eu cychwyn ar y cyd â phartneriaid eraill, fel arfer wedi'u seilio ar ddadansoddiad da o angen. Mae staff yn cynllunio'r prosiectau hyn yn dda, ac yn defnyddio data i ganolbwyntio ar wasanaethau ac i goladu data am ganlyniadau.

Effaith

17 Nid oes gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'r rhan fwyaf o'r darparwyr unigol ynddynt fesurau effaith a chanlyniadau sy'n ddigon aeddfed i fod yn effeithiol.

18 Mae darparwyr felly'n darparu gwasanaethau dyblyg a diangen, ac nid oes ganddynt syniad clir am werth y rhain am arian.

19 Mae angen arweinyddiaeth gliriach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth roi cyngor ac arweiniad i ddarparwyr a phartneriaethau ar fesurau canlyniadau defnyddiol. Ar hyn o bryd, caiff gormod o amser ei wastraffu'n ceisio mesurau perthnasol yn hytrach na chael ffocws clir ar ganlyniadau.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ddarparu arweinyddiaeth ac adnoddau yn y meysydd hynny lle nad oes data ar gael;

A2 cefnogi datblygiad mesurau canlyniadau defnyddiol gan adeiladu ar ddangosyddion perfformiad sydd eisoes yn bodoli;

A3 datblygu arweiniad ar gwmpas y data y dylid ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddi angen er mwyn cael mwy o gysondeb ar draws Cymru (gan alluogi meincnodi, felly); a gwneud yn siŵr bod y wybodaeth hon ar gael ar ffurf tueddiadau gydag amser; a

A4 phennu data gwaelodlin cyn cychwyn ar fentrau newydd fel bod modd datblygu dull cyffredin ar draws Cymru i fesur effaith.

Dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid:

A5 wneud yn siŵr bod y data sy'n cael ei gasglu ar gyfer dadansoddi anghenion a mesurau canlyniadau yn cael ei ddefnyddio i lywio dyrannu adnoddau a chynllunio strategol;

A6 defnyddio mesurau canlyniadau'n effeithiol a choladu'r wybodaeth hon yn drefnus; a

A7 gwneud mwy o ddefnydd ar wybodaeth fanwl i ffocysu gwasanaethau cymorth ac addysg ar y rheiny sydd â'r angen mwyaf.

Argaeledd data

20 At ei gilydd, mae gan awdurdodau lleol a'u partneriaid fynediad at ystod eang o ffynonellau data i ddechrau ar y broses o nodi anghenion plant a phobl ifanc.

21 Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn defnyddio data mewn agweddau ar eu gwaith at y dibenion canlynol:

- nodi rhai o anghenion plant a phobl ifanc;
- cofnodi nifer y defnyddwyr mewn gwasanaethau penodol;
- meincnodi yn erbyn darparwyr tebyg lle mae data ar gael yn gyson ar draws Cymru; a
- dangos canlyniadau sy'n dangos effaith ymyriadau ar blant a phobl ifanc.

22 Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid hefyd yn coladu data sy'n cyflwyno amgyffredion neu agweddau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth neu ystyriaeth. Mae hyn fel arfer yn cynnwys pobl ifanc neu rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc.

23 Yn yr awdurdodau yr ymwelwyd â nhw neu y cawsant eu harolygu, mae rhywfaint o ddryswch yn aml ynghylch diben a defnydd posibl y gwahanol setiau data. Yn rhy aml, er enghraifft, bydd swyddogion yn defnyddio data sy'n dangos nifer y defnyddwyr gwasanaeth er mwyn dangos effaith gwasanaethau. Dim ond dangos y nifer sy'n ymgymryd â gwasanaethau y mae nifer y defnyddwyr gwasanaethau, nid yr effaith. Yn yr un modd, mae arolygon o amgyffredion yn cael eu defnyddio fel arwydd o ansawdd cyflwyno'r gwasanaeth, er mai dim ond rhoi sylwadau defnyddiwr y gwnânt.

24 I ddechrau, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn defnyddio gwybodaeth fel y wybodaeth a ddarperir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a ffigurau'r cyfrifiad i ddechrau dadansoddi tueddiadau ar gyfer anghenion lleol. Lle mae partneriaethau'n adeiladu ar y broses hon dros nifer o flynyddoedd, ac yn defnyddio gwybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiadau anghenion dair neu bedair blynedd yn ôl, mae hyn yn fwy gwerthfawr o ran helpu llywio cynllunio nag y mae bwrw golwg ar ddata sy'n llai na blwydd oed.

25 Mae llawer o bartneriaethau yn defnyddio mudiadau allanol i ymgymryd â'r ymchwil a'r dadansoddi ar eu rhan. Mae hyn yn golygu bod y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn amserlen benodol. Fodd bynnag, o ganlyniad i hyn, nid yw partneriaethau'n meithrin gallu eu staff eu hunain i ddeall a chael gwybodaeth am y broses ddadansoddi fel eu bod yn gallu adeiladu ar hyn yn rheolaidd.

26 Mae ein dadansoddiad o Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc drafft yn dangos mai dim ond tua thraean o awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio dadansoddiad cynhwysfawr o ddata sydd ar gael i lywio'u cynlluniau a'u blaenoriaethau. Er bod amrywiaeth o ddata ar gael ganddynt, nid yw'r partneriaethau wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn gyson i ganolbwyntio ar feysydd allweddol o angen neu flaenoriaethau.

27 Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft i adolygu a diwygio'r gwaith y gwnaethant gyda phartneriaid strategol eraill. Mae hyn wedi gweithio'n dda lle'r aeth swyddogion ar secondiad o un partner i arwain ar goladu data ar ran y bartneriaeth. Mae hyn yn golygu bod y bartneriaeth yn gwneud y defnydd gorau ar arbenigedd mudiadau allweddol.

Astudiaeth achos

Defnyddio arbenigedd o un darparwr i ddatblygu arfer ar draws y bartneriaeth

Mae un awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi anfon uwch swyddog o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar secondiad er mwyn gwneud gwaith ar ran y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Mae hyn yn golygu bod y bartneriaeth yn meithrin ei gallu a'i harbenigedd ei hun wrth drafod data a gwneud defnydd da arno. O ganlyniad, bydd plant a phobl ifanc yn gweld gwasanaethau wedi'u targedu lle mae eu hangen arnynt, a phan fo'u hangen arnynt.

28 Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae protocolau effeithiol ar waith i rannu data ar draws sefydliadau. Yn aml, pan fydd rhannu data yn llwyddiannus, bydd un mudiad allweddol wedi arwain ac wedi sbarduno'r gwaith i annog cydweithio. Mae hyn yn golygu bod cyfrifoldebau gwahanol bartneriaid yn glir, a bod partneriaid yn ei chael yn haws gweithio gyda'i gilydd.

Astudiaeth achos

Rhannu gwybodaeth, rhannu cyfrifoldeb

Mae awdurdod lleol yng ngorllewin Cymru wedi goresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi defnyddio'u dadansoddiad anghenion yn dda i ddatblygu prosiectau ar y cyd sy'n targedu plant a phobl ifanc sydd â'r angen mwyaf. Yn hytrach na chyfeirio unigolion at sefydliadau gwahanol, mae pob partner yn rhannu 'perchnogaeth' ar yr unigolyn a'r canlyniad a ddymunir.

Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn cadw mewn cysylltiad agos am bobl ifanc penodol a bod llai o bobl ifanc yn cael eu colli i ymarferwyr heb gefnogaeth neu drwy gyfeirio sydd wedi'i drefnu'n wael.

29 Mae swyddogion partneriaeth yn ei chael yn anodd cael gwybodaeth gywir ar lefel awdurdod lleol. Mae hyn yn broblem arbennig os yw mudiad fel y Bwrdd Iechyd Lleol neu Dîm Troseddau Ieuenctid yn croesi mwy nag un ffin awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae angen y wybodaeth am fenywod beichiog 16 oed ac yn iau er mwyn cynllunio ar gyfer addysg orfodol, ond mae'r data hwn yn cael ei gasglu ar gyfer menywod beichiog 18 oed ac iau neu 21 oed ac iau.

30 Mae rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol yn dod yn haws wrth i fudiadau a phartneriaethau feithrin ymddiriedaeth rhwng ei gilydd, a datblygu dealltwriaeth well o'u cyfrifoldebau a'u cryfderau ei gilydd. Fodd bynnag, mae swyddogion partneriaeth[1] yn parhau i'w chael yn anodd cael at ddata am grwpiau allweddol o blant a phobl ifanc.

31 Mae bylchau allweddol mewn data sy'n tarfu ar waith partneriaethau ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am:

- niferoedd y bobl ifanc sydd angen cefnogaeth, ond nad ydynt yn cael cefnogaeth, gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS);
- plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan ordewdra;
- rhieni unigol sy'n gweithio;
- mynediad at ganolfannau hamdden a chyfleusterau tebyg gan blant a phobl ifanc, a'r defnydd arnynt;
- effaith amddifadedd a thlodi gwledig ar blant a phobl ifanc; a
- gwasanaethau chwarae.

32 Ar ôl nodi bylchau a meysydd ar gyfer gwella o ganlyniad i goladu data, canfu un awdurdod lleol nad oedd gan feysydd gwasanaeth unigol y data cywir na'r lle perthnasol i gadw'r wybodaeth. Yna, rhoddodd yr awdurdod lleol system gwybodaeth rheoli gynhwysfawr ar waith. Mae gan y system y gallu i goladu dangosyddion canlyniad yr awdurdod lleol ei hun, ynghyd ag asiantaethau partneriaid yn y bartneriaeth plant a phobl ifanc, fel y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Heddlu.

33 Mae ychydig o bartneriaid wedi peri oedi amhriodol i'r cynnydd wrth ddod o hyd i atebion, gan ddyfynnu gwaith ar Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru fel sail resymegol.

34 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw o'r farn bod yr arolygon a gyflawnwyd gan Cymunedau sy'n Gofalu[2] yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn rhoi amgyffrediad lleol. Fodd bynnag, mae'r amgyffredion hyn yn canolbwyntio ar amgyffredion negyddol am gymunedau a phobl ifanc yn benodol.

[1] Mae partneriaethau lleol sy'n cydlynu gwasanaethau plant a phobl ifanc yn aml yn cyflogi swyddogion i weithio i'r bartneriaeth.
[2] Mudiad preifat sy'n ymgymryd â gwaith ar ran awdurdodau lleol

Defnyddio data i lywio cynllunio

35 Yr anghysondeb mwyaf ar draws awdurdodau lleol yw effeithiolrwydd y defnydd ar ddata i lywio blaenoriaethau a chynllunio strategol wrth weithio mewn partneriaeth.

36 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cael eu synnu wrth iddynt fapio gwasanaethau ac adnoddau yn ôl y boblogaeth, gan nodi er enghraifft: maes chwarae wedi'i leoli mewn ardal sydd heb boblogaeth yn ei grŵp oedran targed; a hefyd clybiau ieuenctid sydd â chyfraddau presenoldeb isel iawn ond sydd â chostau uned uchel. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol a phartneriaethau wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i weithredu ar y materion hyn.

Astudiaeth achos

Mapio data o ystod o ffynonellau

Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi dechrau defnyddio mapio Systemau Lleoli Byd-eang er mwyn dod â data o ystod o ffynonellau ynghyd. Yn yr awdurdodau hyn, mae'r broses wedi arwain at dargedu gwasanaethau penodol yn ddefnyddiol ac yn wybodus gan amrywiaeth o ddarparwyr partner. Mewn dau awdurdod lleol, mae hyn wedi arwain at dargedu gwasanaethau gyda ffocws daearyddol. Pan fydd ardaloedd daearyddol allweddol wedi cael eu pennu, bydd darparwyr eraill fel y Gwasanaeth Ieuenctid yn casglu codau post defnyddwyr er mwyn adeiladu darlun o gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau.

37 Hyd yn hyn, nid yw partneriaethau a meysydd gwasanaeth mewn awdurdodau lleol yn fedrus wrth fapio na gwneud cysylltiadau rhwng gwybodaeth amrywiol sy'n cael ei dal gan amrywiaeth o ddarparwyr. Er enghraifft, nid ydynt yn mapio data am blant a phobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol gyda'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r Tîm Troseddau Ieuenctid, plant mewn angen, neu'r rheiny sydd ar raglenni gweithredu gan yr ysgol. Byddai'r math hwn o gydberthyn a dadansoddi yn galluogi ymyriadau cynnar i gael eu targedu at y rheiny sydd fwyaf agored i niwed.

38 Mae ardaloedd awdurdodau lleol sydd wedi sefydlu strwythurau partneriaeth ac sydd â swyddogion neu dimau cydlynu sefydledig ar waith, wedi adeiladu'n effeithiol ar ddadansoddiadau dilynol o angen. Mae hyn wedi arwain at wybodaeth o ansawdd gwell a pherfformiad gwell gan bartneriaeth.

39 Ar adegau, mae gan fentrau penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru fodelau cyllid sy'n gwrthddweud asesiad y bartneriaeth leol o angen. Er enghraifft, mae Dechrau'n Deg yn targedu cyllid at rai teuluoedd mewn ardal dalgylch ysgol lle nad oes angen cefnogaeth arnynt o reidrwydd, tra bod angen ymyrraeth dargedig ar deuluoedd eraill mewn ardaloedd eraill. Yn yr un modd, nid yw blaenoriaethau a chyllid cenedlaethol yn helpu awdurdodau lleol sydd wedi dyrannu adnoddau'n effeithiol yn ôl angen. Bydd yr awdurdodau lleol hyn eisoes wedi targedu eu blaenoriaethau yn y blynyddoedd blaenorol ac wedi gwneud cynnydd, a byddant eisiau symud ymlaen at y flaenoriaeth nesaf yn hytrach na dyblygu gweithrediadau a'r defnydd ar adnoddau.

40 Canfu ychydig o awdurdodau lleol fod angen mwy o ymchwil er mwyn darparu'r manylion angenrheidiol ar gyfer targedu'n ystyrlon ar ôl y dadansoddi cychwynnol. Canfu un awdurdod lleol mai cyfweliadau targedig a strwythuredig gyda grwpiau penodol oedd yr unig ddulliau o gael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Er enghraifft, gwrandawont ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, defnyddwyr canolfannau teuluoedd, a phlant ag anableddau.

41 Mae arolygiadau Estyn yn gweld bod llawer o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn araf wrth nodi a gweithredu ar ran grwpiau allweddol o blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol, er mwyn eu helpu i gynnal eu haddysg. Mae'r rhain yn cynnwys disgyblion o leiafrifoedd ethnig, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r Tîm Troseddau Ieuenctid, a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

42 Ni chaiff data manwl ar lefel disgyblion ei ddefnyddio'n ddigon da i dargedu gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol. Er enghraifft, ni chaiff gwybodaeth am ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ei defnyddio'n ddigon da i helpu partneriaid eraill i dargedu gwasanaethau ataliol a gwasanaethau cymorth.

43 Dyma'r grwpiau, sef y grwpiau mwy agored i niwed o blant a phobl ifanc, y mae partneriaethau yn ei chael yn fwy anodd defnyddio data manwl yn dda ar eu cyfer, er mwyn llywio cynllunio. O ganlyniad, nid yw partneriaethau'n cynllunio'n ddigon da i wneud yn siŵr bod y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn cael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

Effaith

44 Mae partneriaethau'n dechrau defnyddio data'n fwy effeithiol i nodi blaenoriaethau. Er, hyd yn hyn, nid yw darparwyr mor effeithiol wrth gofnodi effaith y cynllunio a'r blaenoriaethu hyn. Mae bron pob awdurdod lleol a'u partneriaid yn ei chael yn anodd dod o hyd i ddulliau defnyddiol o ddangos effaith eu gwaith a mesur canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

45 Mae arolygiadau Estyn o wasanaethau cymorth ieuenctid yn canfod bod Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn aml yn ei chael yn anodd dangos effaith cydweithio ar ganlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr. Yn rhy aml, mae'r diffyg data defnyddiol ar ganlyniadau ac anhawster cael perchenogaeth ar gyd-flaenoriaethau yn golygu na all partneriaid weld effaith y gweithio hwn ar y cyd.

46 Dim ond tua hanner y partneriaethau sydd mewn gwirionedd wedi ailddyrannu adnoddau er mwyn ymateb i flaenoriaethau. Yn ogystal, dim ond ychydig ohonynt sydd wedi ailffocysu cyllidebau craidd er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol traws-sefydliadol, fel gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Astudiaeth achos

Cofnodi effaith cydweithio

Mae un bartneriaeth yng ngogledd ddwyrain Cymru wedi dechrau monitro llwyddiant eu gweithgorau. Mae'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yn yr awdurdod lleol yn defnyddio log gwella er mwyn dangos gwelliannau allweddol. Mae Cadeirydd y bartneriaeth wedi defnyddio'r system hon yn llwyddiannus i gynnig arfarniadau ansoddol o effaith gwaith cydweithredol ar wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr.

47 Yn aml, mae gan fentrau sy'n targedu grwpiau penodol dechnegau effeithiol i goladu data defnyddiol am ganlyniadau. Serch hynny, nid yw'r arfer dda hon bob amser yn cael ei chydnabod na'i rhannu ymysg darparwyr eraill. Mae'r mentrau hyn yn defnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli am berfformiad, fel y wybodaeth sydd ar gael am ganlyniadau arholiad plant sy'n derbyn gofal neu sipsi-deithwyr, ac maent yn bwrw golwg ar dueddiadau sy'n gwella gydag amser yn dilyn cymorth ac ymyrraeth dargedig.

48 Mae gan ddarparwyr unigol mewn partneriaethau wybodaeth ddefnyddiol am ganfyddiadau, anghenion a chanlyniadau a gyflawnir gan blant a phobl ifanc ond nid ydynt yn rhannu'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol gydag eraill. Felly, ni ellir defnyddio'r wybodaeth hon i helpu gwella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc, nac i ddangos gwelliannau cyfredol.

49 Nid oes gan PPPhIau drosolwg ddigon clir o ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu hardal awdurdod lleol. Mae hyn oherwydd bod mesurau defnyddiol cyfyngedig ar gyfer agweddau pwysig ar addysg, gwasanaethau cymorth a gwaith ymyrryd cynnar.

50 Yn ogystal, mae'r diffyg data defnyddiol am ganlyniadau mewn dysgu y tu allan i oriau ysgol ac yng ngwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn dal gwaith partneriaethau yn ei ôl.

51 Mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid ac mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, ychydig o gynnydd sydd wedi bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddwyn data cenedlaethol am ganlyniadau ar gyfer dysgwyr ynghyd. Felly, ni all y sectorau hyn wneud y defnydd gorau o ddata i ysgogi newid lle mae'r angen mwyaf amdano, nac i wella effaith eu gwasanaethau.

52 Defnyddiodd ychydig o awdurdodau lleol Dangos Llwyddiant[3] fel ffordd o fesur effaith gwasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, mae dryswch ymysg darparwyr ynghylch sut i ddefnyddio'r model a'i effeithiolrwydd gwirioneddol. O ganlyniad, nid yw digon o ddarparwyr yn gwneud defnydd effeithiol ar y model i farnu ei effeithiolrwydd fel arf.

53 Yn aml, mae darparwyr yn dibynnu'n ormodol ar dystiolaeth anecdotaidd i arfarnu a yw mentrau'n helpu plant a phobl ifanc ai peidio. Yn achos mentrau iechyd, er enghraifft, mae darparwyr yn cofnodi a yw gweithgareddau a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni, ond dim ond ychydig ohonynt sydd â systemau cadarn ar waith ar gyfer arfarnu effeithiau eu gwaith o ran newidiadau gwirioneddol mewn ymddygiad ac iechyd.

54 Mae'r mesurau canlyniadau a nodwyd yn yr arweiniad ar gyfer partneriaethau yn adlewyrchu rhai dangosyddion perfformiad cenedlaethol cyfredol. Mae'r rhain yn ddefnyddiol ar gyfer elfennau o'r nodau craidd, ond mae'r bylchau pwysicaf yn parhau'n anghyflawn.

55 Mae partneriaethau yn ei chael yn anodd penderfynu ar fesurau canlyniadau perthnasol a defnyddiol. Mae rhai partneriaethau yn arfarnu'r prosesau yr aeth staff drwyddynt yn hytrach na'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

56 Mae partneriaethau'n cael anhawster yn barnu gwerth am arian gan na allant farnu effeithiolrwydd ac effaith eu gwaith ar blant a phobl ifanc.

[3] Prosiect gan Lywodraeth Cynulliad Cymru